



Cyfarfod Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned

**Nos Iau, 28 Ebrill 2016
7.00 yh – 8.30 yh**

Siambr y Cyngor
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

Rhaglen

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

2. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2015. **(Papur A)**

3. Grwp Rhanddeiliaid

3.1 Cofnodion

Cyflwyno cofnodion y cyfarfodydd gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:

- 3 Chwefror 2016 **(Papur B)**
- 9 Mawrth 2016 (Is-Grwp Canolbarth Môn) **(Papur C)**
- 6 Ebrill 2016 **(Papur Ch)**

3.2 Teclyn Partneriaethol (Papur D – i ddilyn)

- (a) Lansio'r Teclyn.
- (b) Cwestiynau o'r llawr.
- (c) Argymhellion gan yr Arweinydd

Town and Community Councils Liaison Meeting

**Thursday, 28 April 2016
7.00 pm – 8.30 pm**

Council Chamber
Council Offices
Llangefni
LL77 7TW

Agenda

1. Welcome and Apologies

2. Confirmation of Minutes

To confirm the minutes of the meeting held on 19 November 2015. **(Paper A)**

3. Stakeholder Group

3.1 Minutes

To submit the minutes of the meetings held on the following dates:

- 3 February 2016 **(Paper B)**
- 9 March 2016 (Canolbarth Môn Sub-Group) **(Paper C)**
- 6 April 2016 **(Paper Ch)**

3.2 Partnerships Toolkit (Paper D – to follow)

- (a) Launch of the Toolkit.
- (b) Questions from the floor.
- (c) Recommendations by the Leader

3.3 Rhannu Arfer Dda
(Menter Môn)

- (a) Cyngor Tref Llangefni
- (b) Gwasanaeth Llyfrgelloedd
- (c) Y 5 Tref

**4. Deddf Llesiant
Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
2015**

Cyflwyniad ar oblygiadau'r Ddeddf uchod
i Gyngorau Tref a Chymuned.

**5. Diogelwch Cymunedol – rhannu
gwybodaeth.**

3.3 Sharing Good Practice
(Menter Môn)

- (a) Llangefni Town Council
- (b) Library Service
- (c) The 5 Towns

**4. Well-being of Future
Generations (Wales) Act 2015**

Presentation on the implications of the
above Act for Town and Community
Councils.

**5. Community Safety – sharing of
information.**

**Cofnodion Cyfarfod y Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned
Dydd Iau, 19 Tachwedd 2015 – 7pm**

Siambur y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni

Yn bresennol

Gwynn Jones
Stan Zalot
Margaret A Thomas
Llinos G Jones
Janice M Davies
Cliff Everett
Richard Barker
Meinir Davies
Bill Rowlands
Alan Benson
Geraint Parry
Anna Jones
Diana Roberts
Gordon Browne
Gwenda Owen
Mavis Swaine-Williams
Mairde Thomas
Ian Owen
Einion Parry Williams
Eifion Jones

Yn cynrychioli Cyngorau Tref a Chymuned

Amlwch
Biwmares
Llangefni
Llangefni
Llangefni
Caergybi
Porthaethwy
Porthaethwy
Trearddur
Trearddur
Llangoed a Llanddona
Tref Alaw
Llanfair ME
Y Fali
Y Fali
Y Fali
Cwm Cadnant
Llanfihangelceifiog
Llanfihangelceifiog
Pentraeth

Yn cynrychioli Cyngor Sir Ynys Môn

Y Cyngorydd Ieuan Williams
Y Cyngorydd HE Jones
Y Cyngorydd Ken Hughes
Y Cyngorydd Derwyn Hughes

Y Cyngorydd A Mummery

Y Cyngorydd Gwilym O Jones
Y Cyngorydd Carwyn Jones
Dr Gwynne Jones
Gwen Carrington
Annwen Morgan
Caroline Turner
J Huw Jones
Anwen Davies
Geraint Roberts

Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn (Cadeirydd)
Deilydd Portffolio – Cyllid
Deilydd Portffolio – Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac
Adfywio
Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac
Adfywio
Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
Hyrwyddwr Amrywiaeth – CSYM
Prif Weithredwr
Cyfarwyddwr Cymuned
Prif Weithredwr Cynorthwyol
Prif Weithredwr Cynorthwyol
Pennaeth Gwasanaethau Democraidd
Rheolwr Sgriwtini Corfforaethol Dros Dro
Swyddog Sgriwtini

Ymddiheuriadau:-

Cyngor Cymuned Trewalchmai
Y Cyngorydd R Meirion Jones

Cyngor Sir Ynys Môn

1. Cadarnhau'r Cofnodion

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf, 2015 yn gywir yn amodol ar nodi o dan eitem 6, UFA – gwefan Cyngorau Tref a Chymuned - fod Cyngor Tref Porthaethwy bellach wedi ceisio am gyllid.

2. Cwrdd â'r Heriau: Ymgynghori ar y Gyllideb 2016/17

2.1 Diweddariad ar gyfarfod y Grŵp Budd-ddeiliaid Cyngorau Tref a Chymuned a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2015

Amlygodd yr Arweinydd y prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfod y grŵp ffocws a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2015 rhwng y Cyngor a chynrychiolwyr dynodedig o'r Cyngorau Tref a Chymuned. Pwrpas y cyfarfod cychwynnol oedd archwilio'r opsiynau ar gyfer cyflawni trefniadau partneriaeth rhwng Cyngorau Tref a Chymuned a'r Cyngor. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar sefyllfa ariannol y Cyngor; trawsnewid gwasanaethau, y cyllidebau llai oedd ar gael a'r posibilrwydd i rai gwasanaethau gael eu datganoli i Gynghorau Tref a Chymuned, gan adeiladau ar fodolau oedd eisoes yn bodoli e.e. Canolfan Biwmares a chamerau goruchwylio. Nododd yr Arweinydd hefyd mai cam nesaf y gwaith fyddai paratoi rhaglen waith fwy manwl yn dilyn y broses gyllideb a chynnal cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp Budd-ddeiliaid.

Yn codi o'r drafodaeth, dygodd Cyngor Tref Caergybi sylw at rôl Cyngorau Tref a Chymuned mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r ffaith fod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd yn cael ei sefydlu ar gyfer Ynys Môn, yn canolbwyntio ar lesiant cymunedau lleol yn yr ardal.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr hefyd at y gofynion yn y dyfodol sy'n deillio o'r Ddeddf hon a phwysleisiodd y ddyletswydd sydd ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Cyngorau Tref a Chymuned, i weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael ag anghenion llesiant y cymunedau a chynnaladwydd gwasanaethau lleol.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

2.2 Ystyried y cynigion cychwynnol ar gyllideb 2016/17 gan y Pwyllgor Gwaith

Rhoddodd yr Arweinydd drosolwg o gynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y gyllideb a chyflwynodd sleidiau ar y prif negeseuon pwysig a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori gyhoeddus, gan gyfeirio'n benodol at y canlynol:

- Gostwng costau rheoli, democratiaeth a biwrocratiaeth
- Sicrhau gwerth da am arian
- Trawsnewid gwasanaeth y mae dyletswydd gyfreithiol arnom i'w darparu
- Creu'r incwm mwyaf posib
- Cydweithio
- Herio parhad gwasanaethau anstatudol

Cyfeiriodd y Deilydd Portffolio Cyllid at sefyllfa ariannol y Cyngor ar y cyfan, y bwlch yn y gyllideb wrth fynd ymlaen a'r amserlen dros y 3 mis nesaf cyn cyfarfod y Cyngor ar 10 Mawrth i osod y gyllideb.

Wedyn gofynnwyd am farn y Cyngorau Tref a Chymuned mewn ymateb i gynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar y gyllideb. Gofynnwyd am eu sylwadau erbyn 31 Rhagfyr 2015.

Sylwadau:

Cyffredinol

Cyngor Tref Caergybi – yr angen i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned ystyried effaith y cyllidebau llai gan y Cyngor Sir pan fyddent yn gosod y preseptaau yn y Flwyddyn Newydd.

Penodol

Gwasanaeth Casglu Gwastraff y Cartref

Cyngor Tref Caergybi – effaith bosib y newidiadau i drefniadau casglu gwastraff y cartref i gasglu pob 3 neu 4 wythnos a'r potensial am ragor o achosion o adael gwastraff yn anghyfreithlon a chostau uwch.

Cwm Cadnant - effaith y gwasanaeth casglu pob 3 wythnos ar deuluoedd â phlant ifanc. Hefyd, pa mor ddigonol yw'r wybodaeth a ddarperir i'r cyhoedd ac yn enwedig yr henoed, gallai beri dryswch. Yn ogystal, dylid ystyried darparu biniau llai o faint a darparu gwasanaeth casglu mwy rheolaidd i gynorthwyo teuluoedd ifanc. Ar y mater o finiau mwy, gellid gofyn i'r cyhoedd dalu am y rhain.

Cyngor Cymuned Trearddur – dylid darparu mwy o wybodaeth i'r cyhoedd yn gyffredinol ar bwysigrwydd ailgylchu mwy o ddeunyddiau. Mae angen cyfleusterau ailgylchu yn Nhrearddur hefyd a mwy o finiau yn gyffredinol, yn enwedig yn ystod yr haf.

Ynglŷn â'r mater o ailgylchu'n gyffredinol, pwysleisiodd y Prif Weithredwr rôl bwysig yr holl Gynghorau Tref a Chymuned i annog preswylwyr i ailgylchu mwy yn y dyfodol er mwyn lleihau costau, a chwrdd â thargedau'r Llywodraeth ganolog ar gyfer pob ardal awdurdod lleol ac osgoi cosbau posib.

Masnachu ar y Stryd

Cyngor Cymuned Llanfairpwll – Oes sgôp i greu mwy o incwm trwy gyfleoedd i wasanaethu anghenion twristiaid?

Ail Gartrefi

Cyfeiriodd Cyngor Tref Biwmares at y ganran uchel o ail gartrefi yn y dref ac effaith hynny ar yr economi leol, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf. Mewn ymateb i hynny, nododd yr Arweinydd y byddai'r Cyngor yn ystyried llunio polisi yn y Flwyddyn Newydd ar breimymau'r Dreth Gyngor ar ail gartrefi ac eiddo sydd wedi bod yn wag am amser hir.

Grantiau Trydydd Sector

Cyfeiriodd Cyngor Tref Porthaethwy at effaith bosib unrhyw ostyngiadau pellach yn y grantiau i'r 3ydd sector, a gwytnwch grwpiau gwirfoddol i fedru cynnal gwasanaethau yn y dyfodol.

Gweithredu: (i) CSYM i gylchredeg copi o'r cyflwyniad i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned

(ii) CSYM i ddarparu data i Gynghorau Tref a Chymuned ynghylch cyfraddau ailgylchu ar Ynys Môn.

3. Amrywiaeth mewn Democratiaeth – Rhaglen Fentora Llywodraeth Cymru

Rhoddodd y Cynghorydd Carwyn Jones, Hyrwyddwr Amrywiaeth, drosolwg o'r Rhaglen Fentora ynghyd â'r wybodaeth sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru i hyrwyddo amrywiaeth mewn democratiaeth yn y cyfnod sy'n arwain at yr etholiadau lleol yn 2017. Mae amryw o ddogfennau ar gael yn awr ar-lein i annog grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i gymryd rhan yn y rhaglen fentora.

4. Fforwm Sgriwtini

Rhoddodd y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro grynodedb o raglenni gwaith y ddau Bwyllgor Sgriwtini a'r gwaith a wnaed hyd yma gan yr amrywiol Banelau Canlyniad Sgriwtini a sefydlwyd i ystyried materion penodol.

Oherwydd prinder amser yn y cyfarfod i gyflwyno gwybodaeth, cytunwyd i gylchredeg copi o'r cyflwyniad a baratowyd at yr holl Gynghorau Tref a Chymuned.

Gweithredu: CSYM i gylchredeg copi o'r cyflwyniad i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned

Grŵp Rhanddeiliad Cyngorau Tref a Chymuned - 3.2.16

Presennol:

Cliff Everett	Cyngor Tref Caergybi
Richard Barker	Cyngor Tref Porthaethwy
Margaret Thomas	Cyngor Tref Llangefni
Gwyn Jones	Cyngor Tref Amlwch
Stan Zalot	Cyngor Tref Beaumaris
Einion Williams	Cyngor Cymuned Llanfihangellesceifiog
JE Lewis	Cyngor Cymuned Llangristiolus/Llangefni

Councillor Ieuan Williams	CSYM
Annwen Morgan	CSYM
Anwen Davies	CSYM
Gethin Morgan	CSYM
Huw Jones	CSYM

Gerallt Llewelyn	Menter Môn
------------------	------------

1. Pwrpas y Cyfarfod

Amlinellodd Mrs Annwen Morgan y cefndir a phwrpas y cyfarfod a'r angen i ddatblygu opsiynau a modelau posib i ddarparu gwasanaethau yn lleol. Yn ogystal, roedd angen ystyried y modd gorau i reoli gwasanaethau drwy gynnal deialog gyda chymunedau lleol.

2. Arferion da

Amlinellodd Cliff Everett y sgôp a'r potensial i Gynghorau Tref a Chymuned reoli gwasanaethau a hefyd y pwerau sydd ar gael o dan Ddeddf Llywodraeth Lleol 1972 i godi arian drwy'r dreth. Cyfeiriwyd at enghreifftiau yng Nghaergybi lle mae'r Cyngor Tref wedi mynd ati i gynllunio a darparu gwasanaethau e.e. toiledau cyhoeddus a mannau chwarae. Model arall y byddai modd datblygu ymhellach fyddai ar sail y 5 Cyngor Tref - rheoli camerâu cylch cyfyng. Byddai modd i Gynghorau Tref a Chymuned adnabod cynlluniau penodol ar sail angen lleol ac angen darpariaeth mewn cyllidebau .

Cafwyd adborth yn ogystal gan Gethin Morgan ar wybodaeth a dderbyniodd mewn seminar diweddar yn Llundain ar y thema ymgysylltu cymunedol a'r potensial i gymunedau yn hytrach nag awdurdodau lleol reoli gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd yn bwysig datblygu consensws lleol ynglŷn ag anghenion/dyheadau cymunedau.

3. Symud Ymlaen – Cymorth

Cyfeiriodd Gerallt Llewelyn at y potensial i swyddogion Menter Môn ddarparu capasiti er mwyn cefnogi Cynghorau Tref a Chymuned o safbwynt y gwaith cefndirol angenrheidiol ar gyfer rheoli gwasanaethau. Nodwyd yr angen i gefnogi a darparu capasiti i Gynghorau Tref a Chymuned wrth ystyried trosglwyddo cyfrifoldeb am wasanaethau. Roedd sgôp yn ogystal i ystyried modelau mewn ardaloedd eraill e.e. ardal Bala lle mae Cynghorau Cymuned yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau lleol.

Nodwyd yn ogystal yr angen i ystyried materion cyllido a'r posibilrwydd o gefnogaeth drwy o bosib grant fel rhan o drosglwyddiad gwasanaeth.

4. Toolkit Partneriaethau

Cafwyd adroddiad gan Anwen Davies yn crynhoi gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd i baratoi dogfen ar bolisi partneriaethau'r Cyngor Sir, canllawiau ar ffurf toolkit a rhestr o bartneriaethau presennol y bwriedir ei adolygu'n flynyddol. Bwriedir adrodd i'r Pwyllgor Gwaith ar 14 Mawrth, 2016. Bydd gwybodaeth yn cael ei gynnwys ar wefan y Cyngor yn fuan.

5. Symud ymlaen – Camau nesaf

Cytunwyd ar y materion canlynol:

1. Bod cyfarfod yn cael ei gynnal gyda chynrychiolaeth o Gyngor Tref Llangefni a'r Chynghorau Cymuned sy'n rhan o ward Canolbarth Môn er mwyn trafod opsiynau i reoli gwasanaethau gan ddefnyddio Llangefni fel canolbwynt. Menter Môn i ddarparu cefnogaeth swyddogion a dylid adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y grŵp hwn gydag amserlen waith benodol. Yn ogystal, dylid estyn gwahoddiad i Aelodau Lleol y Cyngor Sir i'r cyfarfod
2. Bod y Cyngor Sir yn paratoi rhestr yn nodi'r amserlen ar gyfer allanoli gwasanaethau i'w drafod gyda Chynghorau Tref a Chymuned.
3. Bod angen ystyried materion cyllidol gyda Chynghorau Tref a Chymuned o safbwynt trosglwyddo gwasanaethau.
4. Gofyn am adborth Cliff Everett i'r canllawiau Toolkit Partneriaethau sy'n cael ei baratoi.

Is-Grŵp y Grŵp Rhanddeiliaid Cyngorau Tref a Chymuned (Ardal Canolbarth Môn)

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2016.

Presennol:

Cyng Edna M Jones
Margaret Price
Cyng J Egryn Lewis

Cyng Bob Parry OBE

Cyng Dylan Rees
Cyng Margaret A Thomas
Janice M Davies

Cyng Ieuan Williams (Cadeirydd)
Annwen Morgan
Delyth Molyneux
Carol Sorahan
Rachel Rowlands
Bethan Hughes Jones
Rhian Wyn Jones

Jackie Lewis
Elfyn Roberts

Cyngor Cymuned Trewalchmai
Cyngor Cymuned Trewalchmai
Cyngor Cymuned Bodffordd/Tref
Llangefni

Cyngor Sir Ynys Môn (Canolbarth Môn/
Cyngor Cymuned Bryngwran
Cyngor Sir Ynys Môn (Canolbarth Môn)
Cyngor Tref Llangefni
Cyngor Tref Llangefni

Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Sir Ynys Môn (ar gyfer eitem 2)
Cyngor Sir Ynys Môn (ar gyfer eitem 2)
Cyngor Sir Ynys Môn (ar gyfer eitem 2)
Cyngor Sir Ynys Môn (ar gyfer eitem 2)
Cyngor Sir Ynys Môn

Menter Môn
Menter Môn

1. Croesawu / Pwrpas y cyfarfod

Eglurodd y Cadeirydd bod y Grŵp Rhanddeiliaid Cyngorau Tref a Chymuned a gyfarfu ar 3 Chwefror 2016 wedi cytuno y dylid cynnal y cyfarfod hwn gyda chynrychiolaeth o Gyngor Tref Llangefni a'r Cyngorau Cymuned sy'n rhan o ward Canolbarth Môn er mwyn trafod opsiynau i reoli gwasanaethau, gan ddefnyddio Llangefni fel canolbwyt.

2. Trawsnewid Gwasanaethau Llyfrgelloedd

Cafwyd cyflwyniad gan Rachel Rowlands, Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgell y Cyngor Sir, ar y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â thrawsnewid y gwasanaethau llyfrgelloedd. Pwysleisiwyd na fyddai penderfyniad yn cael ei wneud tan o leiaf Hydref 2016 ac y byddai ymgynghoriad manwl ar yr opsiynau posibl yn cymryd lle cyn hynny. Nodwyd bod tri chyfarfod cyhoeddus i'w cynnal yn ystod yr wythnos ddilynol er mwyn cychwyn trafodaethau.

At bwrpas y cyfarfod hwn, cafwyd trafodaeth gyffredinol am rai opsiynau mewn perthynas â Llyfrgell Llangefni, gan gynnwys gwneud defnydd cymunedol o'r adeilad y tu allan i'r oriau agor a gwneud defnydd o rai ystafelloedd gweigion.

3. Opsiynau

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn awyddus i ysgogi trafodaeth ehangach o ran sut y gallai Cyngorau Tref a Chymuned gydweithio ar fentrau cymdeithasol. Gwnaed rhai awgrymiadau cychwynnol - ee meysydd agored/parciau, llyfrgelloedd, meysydd parcio a thoiledau cyhoeddus - gan bwysleisio bod angen meddwl am syniadau arloesol i ddarparu gwasanaethau cymunedol a fyddai hefyd o bosib yn cynhyrchu elw i'r cymunedau yn y pen draw. Cyfeiriodd at drosglwyddiad Cwrs Golff Llangefni i Bartneriaeth Llangefni fel un enghraifft dda o beth y gellir ei gyflawni drwy bartneriaeth.

Roedd cynrychiolwyr y Cyngorau Cymuned o'r farn bod y Cyngor Tref mewn gwell sefyllfa i ystyried cymryd cyfrifoldeb am adeiladau gan nad oedd gan y mwyafrif o'r cymunedau asedau o'r fath o fewn eu ffiniau. Awgrymodd y Cadeirydd y byddai gwasanaethau meysydd agored, ee torri gwair, yn fwy perthnasol i'r Cyngorau Cymuned hynny ystyried.

Yn codi o'r drafodaeth am feysydd agored, cyfeiriodd y Cyng Dylan Rees at broblemau gyda baw cŵn a nododd bod rhai cyngorau yn defnyddio cwmnïau preifat i batrolio'r ardaloedd hyn a dirwyo perchnogion sy'n troseddu. Cytunodd y Cadeirydd y dylid edrych i mewn i hyn.

Dywedodd Annwen Morgan bod y diffyg o ran argaeledd cyllideb, cymorth arbenigol i wneud cynlluniau busnes a diffyg cefnogaeth yn gyffredinol yn neges gyson y mae'r Cyngor Sir yn ei gael gan y Cyngorau Tref a Chymuned. Cyfeiriodd at yr ymdrechion isod i ymdrin â hyn:

Teclyn Partneriaethau - Mae gwaith ar y gweill i gynhyrchu teclyn a fydd yn cynnig canllawiau ar gyfer sefydlu a datblygu partneriaethau ac yn cynnwys manylion cyswllt swyddogion o'r Cyngor Sir a Menter Môn.

Cymorth a chefnogaeth - Cyngor Sir: Cafwyd cadarnhad gan Wasanaeth Cyllid y Cyngor Sir bod rhywfaint o arian ar gael ar gyfer creu cynlluniau busnes ac mae'r gwasanaeth wedi cytuno i gynnal arolygon annibynnol o gynlluniau busnes.

Cymorth a chefnogaeth – Menter Môn: Cafwyd amlinelliad gan Elfyn Roberts a Jackie Lewis (Menter Môn) o'r cymorth a chefnogaeth ariannol sydd ar gael i grwpiau cymunedol o dan y Cynllun newydd 'Leader' ym Môn. Eglurodd y swyddogion y byddai Menter Môn yn gallu cefnogi'r gwaith o gynhyrchu cynlluniau busnes cynhwysfawr, rhagolygon cyllidebol ayyb. Cyfeiriodd y swyddogion hefyd at eu parodrwydd i fynd i gyfarfod Cyngorau Cymuned unigol er mwyn cynnig cefnogaeth.

4. Camau Nesaf

Cytunwyd fel a ganlyn:

- Cyngor Tref Llangefni i gynnal sgwrs gychwynnol hefo Menter Môn i drafod opsiynau posibl, gan gynnwys y posibilrwydd o ymestyn y Fenter 5 Tref, ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Grŵp Rhanddeiliaid.
- Estyn gwahoddiad i Jackie Lewis ac Elfyn Roberts, Menter Môn, i gyfarfod nesaf y Grŵp Rhanddeiliaid ac i'r Fforwm Cyswllt llawn sydd i'w gynnal ym mis Ebrill.
- y dylid gofyn i Wasanaeth Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor edrych i mewn i'r posibilrwydd o ddefnyddio cwmnïau preifat i ddirwyo perchnogion cŵn sy'n baeddu mewn mannau cyhoeddus.

5. UFA

Dim i'w drafod.

Grŵp Rhanddeiliaid Cyngorau Tref a Chymuned

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ebrill 2016.

Yn bresennol:

Cyng Richard Barker	Cyngor Tref Porthaethwy
Cyng Gwynn Jones	Cyngor Tref Amlwch
Cyng Margaret Thomas	Cyngor Tref Llangefni
Cyng Einion Williams	Cyngor Cymuned Llanfihangel Esceifiog
Cyng Ieuan Williams (Arweinydd)	Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng Alwyn Rowlands	Cyngor Sir Ynys Môn
Annwen Morgan	Cyngor Sir Ynys Môn
Anwen Davies	Cyngor Sir Ynys Môn
Rhian Wyn Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Jackie Lewis	Menter Môn

Ymddiheuriadau:

Cliff Everett	Cyngor Tref Caergybi
Cyng J Egryn Lewis	Cyngor Cymuned Bodffordd/Tref Llangefni
Cyng Stan Zalot	Cyngor Tref Biwmares

1. Nodiadau'r cyfarfod diwethaf

Cadarnhawyd nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2016 fel rhai cywir.

Cyfeiriodd Annwen Morgan at bwynt gweithredu 5.2 - *'bod y Cyngor Sir yn paratoi rhestr yn nodi'r amserlen ar gyfer allanoli gwasanaethau i'w drafod gyda Chyngorau Tref a Chymuned'* - gan nodi bod y weithred yma'n gynamserol ar hyn o bryd.

2. Cyfarfod Is-Grŵp Canolbarth Môn

(a) Nodiadau

Cadarnhawyd nodiadau cyfarfod yr is-grŵp a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2016 fel rhai cywir.

(b) Adborth

Cafwyd adborth gan Jackie Lewis a'r Cyng Margaret Thomas ar y cyfarfod a gynhaliwyd rhwng Menter Môn a Chyngor Tref Llangefni er mwyn trafod opsiynau posibl. Nodwyd fel a ganlyn:

- (i) Bod y Cyngor Sir wedi darparu rhestr o'r asedau ac fe gylchredwyd y rhestr honno i holl aelodau Cyngor Tref Llangefni am eu sylwadau.
- (ii) Y bwriedir cynnal cyfarfod pellach ar 13 Ebrill 2016 i barhau trafodaethau, gan gynnwys y posibilrwydd o ymestyn y fenter 5 tref.
- (iii) Penderfynwyd ymestyn aelodaeth y grŵp uchod sy'n cyfarfod ar 13 Ebrill i gynnwys y cynrychiolwyr o'r sector breifat a phartneriaethau cymunedol sydd yn ymwneud â rhai asedau'r ardal eisoes.

3. Teclyn Partneriaethau

Cyflwynodd Anwen Davies y fersiwn ddiweddaraf o Declyn Partneriaethau drafft a ddatblygwyd fel rhan o gyfres o ddogfennau a fydd hefyd yn cynnwys polisi partneriaethau a chofrestr gorfforaethol o bartneriaethau.

Nodwyd bod Pwyllgor Gwaith y Cyngor Sir wedi mabwysiadu'r ddogfen bolisi ac wedi gofyn i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio am sylwadau ar gadernid y ddogfen bolisi fel sylfaen i waith partneriaethol y Cyngor a hefyd fframwaith i siapia trefniadau monitro gan y Pwyllgorau Sgriwtini. Byddai'r Pwyllgor Sgriwtini'n ystyried y mater yn ei gyfarfod ar 12 Ebrill 2016.

Eglurwyd mai'r nod oedd creu Teclyn Partneriaethau syml, defnyddiol a hawdd i'w dilyn. Cyfeiriwyd yn benodol at dudalen 2 - 'Cynnwys' - a gofynnwyd i'r Grŵp ystyried os oedd y cynnwys a rhestrwyd yn gyflawn ac nad oedd unrhyw beth amlwg wedi ei adael allan. Dywedodd Anwen Davies y byddai'n dilyn i fyny trwy e-bost y cais am sylwadau.

Nodwyd y byddai sawl rhan o'r Teclyn yn cael eu datblygu ymhellach cyn ei gyflwyno i'r Fforwm Cyswllt llawn ar 28 Ebrill.

Roedd y Grŵp yn gytŷn bod y Teclyn yn creu sylfaen gadarn i hwyluso'r gwaith o ddatblygu gwaith partneriaethol o fewn cymunedau. Roeddynt hefyd o'r farn bod angen atgyfnerthu'r negeseuon yn y Teclyn trwy gynnal gweithdai esboniadol i gynghorwyr tref a chymuned ar draws yr ynys.

Cyfeiriwyd at bwysigrwydd sicrhau bod swyddogion perthnasol y Cyngor Sir yn gyfarwydd â'r dogfennau sy'n cael ei ddatblygu ac yn gweithredu'n unol â hwy. Eglurodd Anwen Davies bod trafodaethau mewnol wedi cymryd lle wrth ddatblygu'r dogfennau a hefyd bod bwriad cynnal sesiynau i staff maes o law.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr hysbyseb tybiannol a gyhoeddwyd gan y Cyngor ar Sell2Wales yn ddiweddar yn gofyn am fynegiant o ddiddordeb mewn darparu asedau diwylliannol y Cyngor. Eglurodd ei fod wedi derbyn sylw y byddai rhoi cyfle i'r cyngorau cymuned perthnasol yn fwy priodol yn y lle cyntaf a gofynnodd am farn y Grŵp ar y mater. Roedd y Grŵp yn gytûn y dylid cychwyn proses o'r fath trwy roi cyfle ffurfiol mewn llythyr i'r cyngorau cymuned cyn profi'r farchnad.

Gofynnwyd hefyd i'r Cyngor Sir, wrth lunio cyllideb 2017/18, sicrhau bod cyngorau cymuned yn derbyn gwybodaeth ddigonol mewn da bryd er mwyn eu galluogi i gynllunio a chytuno lefelau praeseptau addas.

4. Camau nesaf

Cytunwyd fel a ganlyn:

- (a) Y Teclyn Partneriaethau i'w gyflwyno i gyfarfod y Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned sydd i'w gynnal ar 28 Ebrill 2016.
- (b) Gweithdai esboniadol ar y Teclyn Partneriaethau i'w trefnu i gynghorwyr tref a chymuned ar draws yr ynys.
- (c) Y Fforwm Cyswllt ar 28 Ebrill 2016 i dderbyn adroddiad cynnydd gan swyddogion Menter Môn o ran y trafodaethau sy'n datblygu gyda Chynghorau Tref/Cymuned a grwpiau cymunedol, gan gynnwys ymestyn y fenter 5 tref a throsglwyddo llyfrgelloedd.
- (ch) Cyngorau tref a chymuned i dderbyn rhestr cyn gynted a phosibl o'r asedau/gwasanaethau o fewn eu hardaloedd unigol a fyddai'n addas i'w trosglwyddo, er mwyn eu galluogi i gynllunio lefelau praeseptau addas ar gyfer 2017/18.

5. Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned – cyfarfod 28 Ebrill 2016.

Gweler 4(a) ac (c) uchod.

6. UFA - Cyfraniadau ariannol er budd y gymuned

Awgrymwyd y dylid cynnwys tirlfeddianwyr yn ogystal â datblygwyr mewn trafodaethau am gyfraniadau ariannol er budd y gymuned wrth brosesu ceisiadau cynllunio am felinau gwynt a ffermydd solar. Cytunwyd y byddai'r Prif Weithredwr Cynorthwyol yn gwneud ymholiadau gyda gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor.



GWNEUD I BARTNERIAETHAU WEITHIO

TECLYN

Lluniwyd y ddogfen hon o fewn cyd-destun y dogfennau canlynol gan Gyngor Sir Ynys Môn:

1. Dogfen Bolisi
2. Cofrestr gorfforaethol, ganolog o bartneriaethau
3. Trefniadau monitro partneriaethau (i gadw golwg ar ganlyniadau a materion ariannol)
4. Trefniadau ar gyfer adolygu partneriaethau allweddol yn flynyddol.

CYNNWYS

	Page
1. Cyflwyniad a chynnwys	3
2. Pwrpas y teclyn partneriaethol	4
3. Pam weithio mewn partneriaeth	5
4. Adnabod partneriaethau arwyddocal	7
5. Cofrestr partneriaethau corfforaethol	8
6. Sut i ymuno neu greu partneriaeth newydd	9
7. Cymorth sydd ar gael trwy'r Cyngor	10
8. Datblygu gweledigaeth partneriaeth a rennir	13
9. Atebolrwydd a hyrwyddo llywodraethu da	14
10. Cynllunio a darparu	16
11. Rheoli perfformiad a gwerthuso	17
12. Rheoli risg	19
13. Cyfathrebu ac ymgysylltu	21

ATODIAD

Cynllun Corfforaethol: themâu a blaenoriaethau
Rhestr wirio sylfaenol ar gyfer datblygu cytundeb partneriaeth

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

Appendix 1
TECLYN ?

1. CYFLWYNIAD A CYD-DESTUN

Mae partneriaeth a chydweithio bellach yn rhan annatod o'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn ceisio cyflawni eu huchelgeisiau. Mae'n ddull pwysig o adeiladu capasiti ac mae'n greiddiol i ymagwedd y Cyngor at gyflawni blaenoriaethau a rennir. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth a chredwn fod gwaith partneriaeth llwyddiannus yn hanfodol i ddarparu gwell gwasanaethau i'n cwsmeriaid a'n defnyddwyr ac i Ynys Môn fod yn llwyddiannus. Yn gynyddol, bydd ein llwyddiant fel sefydliad yn cael ei werthuso yn ôl pa mor dda 'rydym yn gweithio gydag eraill i wella lles pobl ar yr Ynys.

Mae gan y Cyngor Sir brofiad helaeth o weithio mewn partneriaeth, boed hynny ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol¹. Gyda mwy a mwy o bwysau ar arian cyhoeddus, mae'n hanfodol bod y Cyngor yn sicrhau bod canllawiau clir yn eu lle ar gyfer penderfynu pryd i sefydlu partneriaethau, pa wasanaeth(au) a'r deilliannau a ddisgwylir ohonynt ac ar gyfer rheoli'r berthynas yn gadarn er mwyn:

Ein galluogi i gyflawni ar ein Cynllun Corfforaethol a blaenoriaethau strategol (**ATODIAD 1**). Hefyd, i wella'r profiad a chanlyniadau i unigolion sy'n defnyddio ein gwasanaethau

Tystioli gwerth am arian neu gost effeithlonrwydd yn ein buddsoddiadau i'r dyfodol a sicrhau deilliannau clir a mesuradwy

Cael clirdeb ynghylch atebolrwydd a threfniadau monitro

Ymateb i risgiau partneriaethol a sicrhau bod meysydd datblygu'n cael sylw

Adnabod unrhyw sgôp i resymoli partneriaethau a bod trefn glir ar gyfer dod ag unrhyw drefniadau i ben.

¹ Adroddiad Gwella Blynyddol 2014/15 (cynnwys Adroddiad Asesu Corfforaethol 2015), Swyddfa Archwilio Cymru, Rhagfyr 2015

2. PWRPAS Y TECLYN PARTNERIAETHOL

Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad ar bartneriaethau lle mae'r Cyngor yn dewis gweithio gyda sefydliadau eraill yn y sector preifat, cyhoeddus neu wirfoddol. Nid yw'n mynd i'r afael â'r cysylltiadau a wneir trwy'r broses gaffael².

Bwriad y Teclyn yn bennaf yw helpu'r rhai sy'n ymwneud â:

- i. Sefydlu trefniadau partneriaeth
- ii. Partneriaethau eisoes mewn bodolaeth
- iii. Gweithio'n uniongyrchol gyda sefydliadau partner (cytuno cytundebau lefel gwasanaeth, memorandwm o ddealltwriaeth ar y cyd; rheoli/monitro perfformiad neu weithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau)
- iv. Gwasanaethu ar fyrddiau neu dimau rheoli partneriaethau


-  Nod y Teclyn hwn yw amlinellu'r egwyddorion a'r prosesau a fydd yn tywys y ffordd y bydd y Cyngor yn mynd ati i weithio mewn partneriaeth, ac fe'i bwriedir i arwain gwaith gyda phartneriaethau newydd a phartneriaethau sydd wedi hen sefydlu. Mae hefyd yn rhoi dolenni i ganllawiau manwl, pecynnau cymorth, adnoddau ac astudiaethau achos, ac mae ar ffurf modiwlau fel y gall sefydliadau gyfeirio at rannau o'r Teclyn yn unig neu ddefnyddio'r Teclyn yn ei gyfanrwydd.
-  Hefyd, bydd y teclyn hwn (gan gynnwys y canllawiau a'r adnoddau sy'n cyd-fynd ag ef) yn ein helpu ynghyd â'n partneriaid i adnabod yr holl bartneriaethau yr ydym ynghlwm â hwy ac i gael trefniadau llywodraethu da i'w cefnogi. Mae'r canllawiau yn cynnwys teclynnau a thempledi y gellir eu defnyddio ym mhob cam ym mywyd y bartneriaeth – o'r adeg pan fyddwn yn ystyried cyflwyno partneriaethau newydd, adolygu trefniadau partneriaeth presennol a gadael partneriaethau. Bydd y dogfennau'n cynorthwyo i ganfod unrhyw broblemau posib.
-  Trwy ddefnyddio'r Teclyn, bydd partneriaid yn fwy parod gyda'r wybodaeth, y teclynnau a'r adnoddau sydd eu hangen i gymryd rhan yn llwyddiannus mewn partneriaeth gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill.
-  Bydd y Teclyn yn cael ei adolygu'n barhaus a'i ddiweddarau er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn berthnasol.

² Amgylchiadau ble byddai'r Cyngor yn cynnig cyfle i ystod o gyrff neu unigolion ddarparu eu gwasanaeth ar gyfer pwrpas penodol drwy broses gystadleuol gyda'r Cyngor yn dewis un darparwr ac yn cadarnhau'r trefniadau drwy gytundeb

3. PAM GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Ar wahân i'r patrwn cynyddol o weithio mewn partneriaeth, mae llawer o **fanteision** i'w cael pan fo sefydliadau gwahanol yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol. Er enghraifft:

MANTEISION PARTNERIAETH



Os ydynt yn llwyddiannus, gall partneriaethau:

- ✚ Adeiladu ar gryfderau sefydliadau gan ganiatáu iddynt gronni adnoddau, osgoi dyblygu a chael yr effaith fwyaf bosib
- ✚ Llenwi bylchau mewn gwasanaeth a chynyddu mynediad at wasanaethau
- ✚ Darparu cyfleoedd i edrych ar wasanaethau mewn ffordd gymhwysfawr, holistig
- ✚ Denu adnoddau newydd a'u defnyddio'n effeithlon.

BETH SY'N GWNEUD PARTNERIAETH LWYDDIANNUS?

Mae yna lawer o rinweddau sy'n nodweddiadol o bartneriaeth lwyddiannus, gan gynnwys y canlynol:



RHAI RHWYSTRAU I WEITHIO MEWN PARTNERIAETH YN EFFEITHIOL

Mae ymchwil wedi dangos bod yna nifer o resymau pam nad yw rhai partneriaethau'n llwyddo. Maent yn cynnwys:

- ✚ Diwylliannau gwahanol rhwng sefydliadau
- ✚ Disgwyliadau amrywiol gan bartneriaid
- ✚ Diffyg ymrwymiad ar frig y sefydliadau
- ✚ Ymdrechion aflwyddiannus blaenorol
- ✚ Cyfnewid gwybodaeth gwael oddi mewn a thu allan i'r bartneriaeth
- ✚ Gwrthdaro rhwng mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol, rhanbarthol neu genedlaethol

4. ADNABOD PARTNERIAETHAU ARWYDDOCAL

Caiff y term partneriaeth ei ddefnyddio fwyfwy yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac felly iddo lawer o ddiffiniadau. Yn y cyd-destun hwn, diffinnir partneriaeth fel:

Trefniant cydweithio lle mae'r partneriaid yn gyrff annibynnol, yn cytuno i gydweithio i gyrraedd nod cyffredin o wydnwch cymunedol ac i gyflawni hynny, yn creu strwythur neu broses sefydliadol a rhaglen y cytunwyd arni.

Fel Cyngor, awn i bartneriaeth pan fyddwn yn cytuno gydag un neu fwy o gyrff annibynnol i gydweithio i gyflawni amcan a rennir. Gallai'r asiantaethau partner hyn fod yn gorff y llywodraeth neu gorff o'r sector cyhoeddus, preifat, cymunedol neu wirfoddol. Felly, efallai y bydd rhaid i ni fynd i drefniadau partneru oherwydd deddfwriaeth neu ofynion statudol³ neu allwn gael y dewis i wneud hynny dim ond os ydym yn dymuno ac yn gallu dewis pwy sydd orau i weithio efo nhw i gyflawni ein blaenoriaethau.

Yn y diffiniad hwn, nid ydym yn cynnwys sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth i'r Cyngor Sir o ganlyniad i ymarfer tendro ffurfiol⁴ e.e. contractau casglu gwastraff neu gynnal a chadw'r rhwydwaith ffyrdd. Er eu bod hwythau hefyd yn bartneriaid efallai, mae honno'n berthynas wahanol.

Felly mae partneriaeth yn drefniant o gydweithio a allai gynnwys unrhyw un neu fwy o'r elfennau canlynol lle mae partneriaid yn:

- Cytuno i gydweithio er mwyn cyflawni amcanion a deilliannau cyffredin i'r gymuned
- sefydlu strwythur newydd i gyflawni amcanion a deilliannau, a rheiny ar wahân i'w sefydliad eu hunain os oes angen
- cynllunio a gweithredu rhaglen a gytunwyd ar y cyd, yn aml gyda staff a/neu adnoddau ar y cyd
- rhannu atebolrwydd, gwybodaeth, risgiau a manteision
- o bosib yn ofynnol gan statud i ddod at ei gilydd i ddibenion cydweithio.

Mae'r siart llif atodedig (**TECLYN ***) yn gymorth i benderfynu a yw partneriaeth yn syrthio i'r ddiffiniad hwn.


Hefyd, bydd rhai partneriaethau yn fwy arwyddocaol nag eraill – o ran y canlyniadau maent yn anelu i'w cyflawni, eu proffil, enw da neu adnoddau a fuddsoddwyd. Mae'r Cyngor wedi datblygu cerdyn sgorio asesu i helpu i ddiffinio ein partneriaethau arwyddocaol (**TECLYN ***). Bydd lefel arwyddocâd partneriaeth yn pennu pa mor ffurfiol y bydd angen i'w strwythur llywodraethu fod.

³ Weithiau fel yn achos partneriaid a ddewisir i ni, er enghraifft, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol

⁴ Drwy broses gaffael: amgylchiadau lle byddai'r Cyngor yn rhoi cyfle i amrywiaeth o sefydliadau neu unigolion ddarparu eu gwasanaethau at bwrpas penodol drwy broses gystadleuol gyda'r Cyngor yn dewis un darparwr ac yn cadarnhau'r trefniadau trwy gytundeb

5. COFRESTR PARTNERIAETHAU CORFFORAETHOL

Mae'r Cyngor Sir wedi creu Cofrestr Partneriaethau Corfforaethol. Mae'n cynnwys y partneriaethau y credwn sy'n allweddol i'n helpu i gyflawni ein blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol a'r Rhaglen Drawsnewid neu'r rheini y mae angen i ni ymgysylltu â hwy i ddylanwadu ar y meddylfryd cenedlaethol neu ranbarthol ynghylch y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu. Gallai'r partneriaethau arddangos un neu fwy o'r nodweddion canlynol:



Caiff y Gofrestr Partneriaethau ei chynnal gan Swyddog Sgrwtini y Cyngor⁵ a chaiff ei hadolygu'n flynyddol. Bydd y Penaethiaid Gwasanaeth yn gyfrifol am roi gwybod i'r Swyddog Sgrwtini am bartneriaethau arwyddocaol sy'n bodoli a rhai newydd cyn gynted ag y cânt eu cytuno fel bod y Gofrestr yn cael ei chadw'n gyfoes. Dylai'r Gofrestr gynnwys adnoddau sydd ar gael i'r bartneriaeth yn ogystal â'r wybodaeth graidd ganlynol:

COFRESTR PARTNERIAETH – GWYBODAETH GRAIDD

- Adnabod yr arwyddocâd strategol a/neu weithredol
- Amcanion/maes gwasanaeth y bartneriaeth
- Cyswllt i flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor
- Partneriaid allweddol
- Swyddog(ion) Arweiniol
- Trefniadau adrodd ac atebolrwydd
- Cyfraniadau ariannol/gwerth y bartneriaeth

Caiff cerdyn sgorio Partneriaethau ei ddefnyddio i gasglu'r wybodaeth ar gyfer y Gofrestr (**TECLYN***).

⁵ Mae'r Swyddog Sgrwtini wedi'i leoli yn Uned Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor ac mae'n cefnogi'r Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio

6. SUT I YMUNO NEU GREU PARTNERIAETH NEWYDD

Mae'r camau sydd ynghlwm â sefydlu partneriaeth yn debyg i'r rheini ar ddechrau prosiect neu weithgaredd newydd. Yn anffodus, yn eu brys i gael effaith a gweld canlyniadau, mae llawer o bartneriaethau'n anwybyddu pa mor bwysig yw sefydlu'r amgylchedd iawn i'r partneriaid weithio'n dda gyda'i gilydd.

Mae'r broses hon yn golygu cyfathrebu rheolaidd, gan greu diwylliant o ymddiriedaeth a pharch, ac annog yr holl bartneriaid i gymryd rhan yn llawn. Yn y cyfnodau cynnar, mae fel arfer yn well dechrau gyda rhai tasgau llai a chyraeddadwy (cyfeirir atynt yn aml fel "enillion cyflym") nes bod y bartneriaeth wedi aeddfedu. Ynghlwm mae rhestr wirio syml ar gyfer sefydlu partneriaeth newydd (**TECLYN***).

Bydd angen cynhyrchu adroddiad yn dangos yr achos busnes ar gyfer y bartneriaeth er mwyn sefydlu partneriaeth newydd neu i fynd i gytundeb partneriaeth sy'n bodoli.


Bydd Swyddog Arweiniol y partner sy'n noddi yn cynhyrchu'r adroddiad sy'n ymgorffori:

-  Cerdyn sgorio asesu partneriaeth wedi'i gwblhau (**TECLYN ***); A
-  Yr ymatebion i'r set o gwestiynau allweddol yn y rhestr wirio achos busnes (**TECLYN ***)

Bydd angen cyflwyno'r achos busnes am bartneriaethau i:

- i. Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor/uwch dîm o bob sefydliad partner er mwyn iddynt roi eu trosolwg strategol o'r cynnig am bartneriaeth a hefyd i roi cymeradwyaeth eu sefydliad i ymrwymo i'r bartneriaeth
- ii. Swyddog Sgriwtini'r Cyngor i'w ddefnyddio i lunio Cofrestr Partneriaethau Corfforaethol berthnasol a chyfoes.

Bydd angen i gyrff cyhoeddus yn arbennig sicrhau nad ydynt yn sbarduno'r rheolau caffael. Cynghorir bod swyddogion arweiniol y sefydliadau priodol yn ystyried yr adroddiad achos busnes yng nghyswllt y meysydd canlynol cyn y gwneir unrhyw gytundebau i fynd i mewn i bartneriaeth:



7. CYMORTH SYDD AR GAEL TRWY'R CYNGOR

-  Mae gwaith partneriaethol llwyddiannus yn hanfodol i gyflawni blaenoriaethau strategol ac uchelgeisiau Cyngor Sir Ynys Môn.
-  Mae'r gallu i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth yn ofyniad pwysig ar gyfer sefydliadau. Er bod nifer y partneriaethau'n parhau i dyfu, nid yw pob un ohonynt yn cwrdd yn llawn â'u hamcanion a'u blaenoriaethau.

Fel Cyngor, ystyriwn fod darparu cymorth yn rhan bwysig o'n rôl o sicrhau y caiff partneriaethau effeithiol eu datblygu a'u tyfu – boed y rheini'n bartneriaethau newydd neu rai sy'n bodoli ers peth amser. Isod mae crynodeb o'r cymorth y gall partneriaethau ddisgwyl y bydd ar gael iddynt:

i. Menter Môn

Gan ddefnyddio cyllid drwy'r Rhaglen LEADER⁶ ac Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, bydd Menter Môn yn darparu rhaglen gymorth unigryw yn y gymuned ar gyfer grwpiau sy'n dymuno gweithio mewn partneriaeth gyda'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn awyddus i ddatblygu model gwahanol i gefnogi newid mewn cymunedau – gan "rannu" yr Ynys yn 4 neu 5 o ardaloedd a fydd yn cael eu cefnogi gan 2 swyddog datblygu o Menter Môn. Bydd y swyddogion hyn yn gweithio mewn cymunedau unigol i ddatblygu arbenigedd yn lleol a byddant yn gweithredu fel person cyswllt â gwasanaethau'r Cyngor. Gall y swyddogion datblygu gynorthwyo gyda gwneud cais am arian grant, datblygu achosion busnes hyfyw a chynlluniau busnes cadarn. Mae manylion cyswllt y 2 swyddog datblygu wedi'u nodi isod:

- Elfyn Roberts
- Jackie Lewis

ii. Medrwn Môn

Nod Medrwn Môn yw hyrwyddo a chefnogi gwirfoddoli, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol drwy weithio gydag unigolion, grwpiau a chymunedau ar Ynys Môn er mwyn sicrhau eu bod yn chwarae rhan lawn ac amlwg i ddatblygu potensial yr Ynys. Ariennir Medrwn Môn drwy'r Cytundeb Partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru ac mae'n ymrwymo i gyflawni'r canlyniadau isod:

- **Dinasyddion sy'n weithgar ac yn cyfranogi**
- **Cymunedau llewyrchus a chynaliadwy**
- **Ymgysylltiad effeithiol mewn polisi** – hwyluso ymgysylltiad y sector drwy strwythurau rhanbarthol, byrddau gwasanaeth cyhoeddus, compactau gyda llywodraeth leol ac iechyd a dulliau partneriaeth eraill.

Bydd Medrwn Môn felly'n cynorthwyo'r trydydd sector ar Ynys Môn i chwarae rhan weithredol a chyfartal mewn unrhyw bartneriaeth berthnasol o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

⁶ Mae'r Rhaglen LEADER yn fenter Ewropeaidd sy'n cefnogi prosiectau datblygu gwledig a gaiff eu cychwyn ar lefel leol er mwyn adfywio ardaloedd gwledig a chreu swyddi

iii. Cyngor ar aqweddu penodol y bartneriaeth

Mae swyddogion yn y Cyngor yn gallu darparu cyngor ar feysydd penodol o waith partneriaeth:

- Cynlluniau busnes hyfyw/diwydrwydd dyladwy, materion caffael, yswiriant ac awdit – Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adain 151
- Materion yn ymwneud ag eiddo – Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)
- Materion cyfreithiol – Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

Trosglwyddo Asedau

Mae'r Cyngor yn adolygu ei bolisi Trosglwyddo Asedau ar hyn o bryd I adlewyrchu canllawiau arferion gorau diweddar iawn gan Lywodraeth Cymru ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol (cyhoeddwyd ym mis Mawrth, 2016 - <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/comm/160310-community-asset-transfer-cy.pdf>).

iv. Cyllid

Mae cymunedau'n aml yn dweud wrthym nad ydynt yn gallu cael mynediad at "arian cychwynnol" i'w helpu i redeg gwasanaethau mewn partneriaeth â'r Cyngor. Gall y Cyngor ddarparu cefnogaeth i alluogi Cyngorau Tref a Chymuned, grwpiau cymunedol a sefydliadau lleol eraill i baratoi'n llawn at weithio mewn partneriaeth gyda'r Awdurdod. Bydd y gefnogaeth hon yn amodol ar dderbyn cais ffurfiol a bydd hynny'n cynnwys cymeradwyo achos busnes hyfyw. Mae rhagor o fanylion ar gael ar gais – trwy'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adain 151.

v. Cysylltiadau i gyngor a chefnogaeth arbenigol

Isod mae manylion sefydliadau a fedr o bosib ddarparu cyngor a chefnogaeth ariannol i grwpiau a sefydliadau lleol sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor:

<u>Darparwr</u>	<u>Meysydd Cyngor</u>	<u>Manylion Cyswllt</u>
Canolfan Gydweithredol Cymru – Busnes Cymdeithasol Cymru	Mae cymorth arbenigol i fusnesau ar gael drwy Busnes Cymdeithasol Cymru: • Creu gweledigaeth • Cynllunio busnes • Datblygu Bwrdd • Strategaeth ar gyfer Gwerthu • Ymgysylltu gyda rhanddeiliaid A llawer mwy. Cymorth twf i fentrau cymdeithasol/ busnesau cymdeithasol ar hyd a lled Cymru. Wedi ei ariannu gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a	http://wales.coop/social-business-support/ Ffôn: 03000 603000

	Llywodraeth Cymru. Caiff ei ddarparu gan Ganolfan Gydweithredol Cymru ac mae'n rhan o wasanaeth Busnes Cymru.	
Menter Môn	Cyngor arbenigol ar gynllunio busnes.	http://www.mentermon.co.uk/menter-mon.htm Ffôn: 01248 725700
Llywodraeth Cymru – Trosglwyddo Asedau Cymunedol	Canllawiau i gefnogi newidiadau sylweddol a fydd yn fodd i gymunedau chwarae rhan fwy gweithredol yn y modd y caiff gwasanaethau eu dylunio a'u darparu. Ei nod yw helpu sefydliadau i fod mewn gwell sefyllfa i gymryd drosodd asedau a drosglwyddir i'r gymuned gan ddatblygu defnydd tymor hir ffyniannus a chynaliadwy ar gyfer asedau a gwasanaethau yn y gymuned.	http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/comm/160310-community-asset-transfer-en.pdf
Cronfa'r Loteri Fawr	Mae nifer o ffynonellau ariannu sylweddol ar gael i gefnogi grwpiau yng Nghymru sydd eisiau gwneud bywyd yn well yn eu cymunedau. Mae mwy na £30m ar gael yn ystod 2016/17 o'r rhaglenni isod: • Arian i Bawb Cymru – grantiau hyd at £5k • Pawb a'i Le – symiau mwy hyd at £1m.	www.biglotteryfund.org.uk/wales Ffôn: 0300 1230735
Praesept y Cyngorau Tref a Chymuned	Caiff y praesept ei benderfynu gan y Cyngor Tref neu Gymuned ac mae'n cynrychioli eu cyfran nhw o'r Dreth Gyngor. Caiff y cais am braesept ei gyflwyno i'r Cyngor Sir sy'n casglu'r dreth ac yn ei chylchredeg i'r Cyngorau Tref neu Gymuned unigol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer pob cynghorydd tref a chymuned - sy'n cynnwys cyngor ar ddarparu gwasanaethau, gweithio mewn partneriaeth a sut i elwa o'r praesept fel ffynhonnell gyllido ar gyfer darparu gwasanaethau.	http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/localgov/120806gcguideen.pdf

8. DATBLYGU GWELEDIGAETH PARTNERIAETH A RENNIR

O safbwynt y Cyngor Sir, dylai mai prif bwrpas gwaith partneriaeth yw gwella'r profiad a'r canlyniadau i bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Dylai gwaith partneriaeth gyfrannu at gyflawni un neu fwy o'n blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol (**ATODIAD 1**). Ni ddylem fod mewn partneriaeth os nad yw'n cyflawni neu na fydd yn cyflawni rhan o'n Cynllun Corfforaethol a blaenoriaethau trawsnewid yn y dyfodol.

Mae'n bwysig bod partneriaethau'n datblygu o fan cychwyn o ymddiriedaeth a gweledigaeth a rennir. Dim ond os yw'r rhain yn eu lle y medrwn fod yn siŵr fod gan bartneriaeth y sylfeini i adeiladu'r amodau angenrheidiol i gyflawni newid. Mae hyn yn cydnabod bod sefydliadau partner, p'un a ydynt yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol neu gymunedol, oll yn dod i'r bartneriaeth o wahanol safbwyntiau ac mae'n bwysig diffinio'n glir y tir cyffredin.


Ynghlwm mae rhestr wirio (**TECLYN ***) sy'n nodi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gefnogi gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol.

9. ATEBOLRWYDD A HYRWYDDO LLYWODRAETHU DA

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio fwyfwy gydag amrediad eang o bartneriaethau yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol er mwyn cyflawni ar ei flaenoriaethau Corfforaethol. Mae cydweithio llwyddiannus yn hanfodol i gyflawni uchelgeisiau a blaenoriaethau'r Cyngor. Mae safonau llywodraethu da yn allweddol i sicrhau bod partneriaethau'n effeithiol.


A. CYTUNDEBAU FFURFIOL

Mae'n hanfodol bod gan bob partneriaeth drefniadau llywodraethu priodol ar waith ac sydd wedi'u hamlinellu mewn ffurf addas o Gytundeb Partneriaeth. Bydd y Cytundeb hwn ar ffurf un o'r canlynol:-



Bydd y gofynion penodol yn amrywio ar gyfer pob partneriaeth, a chan fod nifer o bartneriaethau'n dechrau fel trefniadau eithaf rhydd ac yn datblygu i fod yn fwy arwyddocaol, gall y gofynion hefyd newid dros amser ac felly dylid eu hadolygu'n rheolaidd. Bydd ffurfioldeb a chymhlethdod y cytundeb yn dibynnu ar arwyddocâd y bartneriaeth. Dylid ceisio cyngor cyfreithiol ar gyfer pob partneriaeth arwyddocaol er mwyn cadarnhau a ddylid bod cytundeb rhwymol cyfreithiol yn ei le.

Ar gyfer partneriaethau newydd a phartneriaethau sy'n bodoli eisoes, bydd angen i'r trefniadau llywodraethu gael eu hymgorffori mewn ffurf addas o Gytundeb Partneriaeth, sy'n gwneud y canlynol yn glir:



Gellir defnyddio'r ymatebion i'r rhestr wirio ar gyfer yr achos busnes am bartneriaeth (**TECLYN ***) i ddatblygu cytundebau partneriaeth newydd neu i adolygu cytundebau partneriaeth presennol.

Fel gofyniad sylfaenol, dylai pob partneriaeth ddatblygu cylch gorchwyl ymhlith y partïon sydd ynghlwm, a dylai'r holl bartïon gytuno iddo a'i gefnogi. Mae hwn yn fframwaith hanfodol i gefnogi partneriaid i adeiladu eu perthnasau gwaith a chreu'r ymddiriedaeth sy'n angenrheidiol i wneud y bartneriaeth yn llwyddiannus. Mae'r **TECLYN?** yn darparu rhestr wirio sylfaenol ar gyfer datblygu cytundeb partneriaeth.

Mae'n rhaid cael cytundeb ffurfiol yn ei le pan fydd y bartneriaeth yn cynnwys ymrwymo adnoddau sylweddol gan y Cyngor, boed hynny ar ffurf cyllid, adnoddau dynol, tir, adeiladau neu offer, neu pan fo'r Cyngor yn gweithredu fel y Corff Atebol neu Gyfrifol ar gyfer y bartneriaeth. Mae **TECLYN?** yn amlinellu'r cynnwys angenrheidiol mewn cytundeb ffurfiol.

Dylai statws cyfreithiol y cytundeb a'r cynnwys fod yn gymesur â'r bartneriaeth a dylid eu cytuno mewn ymgynghoriad â'n Tîm Gwasanaethau Cyfreithiol. Er enghraifft, os yw partneriaeth yn cynnwys strwythur cwmni neu strwythur anghorfforedig, bydd hyn yn golygu gwahanol lefelau o atebolrwydd ac effaith ar Aelodau a swyddogion sy'n cyfranogi.

Dylai cytundebau mwy ffurfiol gael eu cytuno trwy Swyddog Arweiniol y Cyngor ar gyfer y bartneriaeth, gan y bydd y Swyddog hwnnw'n cadarnhau'r cytundeb gyda chydweithwyr yn y gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Chyllid i sicrhau'r fformat mwyaf priodol ar gyfer y cytundeb. Mae'n rhaid ymgynghori â deilydd y gyllideb berthnasol bob amser cyn ymrwymo adnoddau i'r cytundeb.


Mae enghreifftiau o gytundebau partneriaeth ffurfiol ynghlwm yn (**TECLYN?**).

B. ROLAU AELODAU ETHOLEDIG A SWYDDOGION

Dylai Aelodau a swyddogion sicrhau eu bod yn llwyr werthfawrogi'r rôl y byddant yn ei harfer mewn partneriaethau. Ceir manylion am y rolau hyn yn **TECLYN?**.

C. CADW AT BOLISIÂU'R CYNGOR

Dylid sicrhau bod unrhyw bartneriaeth naill ai'n mabwysiadu polisiau'r Cyngor neu bolisiau tebyg gan bartneriaid eraill neu bolisiau sy'n gyson â rhai'r Cyngor Sir. Yn benodol, dylai unrhyw bartneriaeth llynu at y polisiau / gofynion a ganlyn:



10. CYNLLUNIO A DARPARU

Wrth reoli'r gwaith o gyflawni amcanion y bartneriaeth, argymhellir dull o gynllunio darpariaeth sy'n ystyried amrywiaeth o opsiynau posibl.

Mae dull syml, 5 cam ynghyd ag arweiniad manwl i'w gweld yn **TECLYN?**.

11. RHEOLI PERFFORMIAD A GWERTHUSO

A. Adolygu Partneriaethau Arwyddocaol yn Flynyddol

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i gwblhau adolygiad blynyddol o hyfywedd a chyfraniad pob partneriaeth arwyddocaol. Fel rhan o'r broses hon, fe wneir asesiad i benderfynu a ddylai Cyngor Sir Ynys Môn barhau â'r trefniadau presennol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried a yw costau'r bartneriaeth yn fwy na'i manteision, yn ogystal ag ystyriaethau gwleidyddol ehangach. Bydd gofyn i bob partneriaeth ddiweddarau'r Cerdyn Sgorio Partneriaethau (**TECLYN ***). Caiff y wybodaeth hon ei chynnwys mewn adroddiad blynyddol i Bwyllgor Gwaith y Cyngor.

B. Rôl Sgriwtini Aelodau Etholedig

Mae sgriwtini o waith partneriaethol gan Aelodau Etholedig yn chwarae rhan bwysig yn nhrefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Bydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn sefydlu ac yn gweithredu rhaglen waith flynyddol o fonitro partneriaethau arwyddocaol.

C. Rheoli Perfformiad gan Bartneriaethau

Mae cynnal partneriaeth lwyddiannus yn gofyn am lawer o egni. Dylai pob partneriaeth, mawr neu fach, gael ei hadolygu'n rheolaidd i weld pa mor dda mae'n gweithio ac i dynnu sylw at ei chryfderau a'i gwendidau. Bydd y teclyn hunan-asesu (**TECLYN ***) yn eich helpu i wneud hyn. Dylid rhoi camau gweithredu ar waith os oes unrhyw agwedd o'r bartneriaeth nad yw'n effeithiol.

Dylai partneriaethau werthuso perfformiad (gan gynnwys perfformiad ariannol) yn rheolaidd a dylai fod yn gysylltiedig â chanlyniadau. Mae rhai partneriaethau'n llunio adroddiad blynyddol neu gynllun cyflawni blynyddol sy'n cynnwys y wybodaeth hon. Dylai canlyniadau perfformiad gael eu rhannu gyda phartneriaid a dylid defnyddio'r wybodaeth i lywio gweithgareddau yn y dyfodol. Dylai gweithgareddau a phenderfyniadau newydd fod yn seiliedig ar arferion da.

Mae arweiniad pellach ar Reoli Perfformiad a gwerthuso perfformiad ynghlwm (**TECLYN ***).

Mae'n rhaid i unrhyw bartneriaeth gael rhyw ffordd o fesur effaith ei gwaith. Dylai partneriaid fod ynghlwm â'r gwaith o osod amcanion a thargedau a dylent fod yn ymroddedig i'w cyflawni. Dylid cynllunio'r holl ganlyniadau i ddangos yn glir pan fydd amcan wedi'i gwblhau. Dylid monitro cynnydd ac adrodd yn ôl arno'n rheolaidd wrth y partneriaid. Yn ogystal, dylai'r bartneriaeth ei hun gael ei hadolygu i sicrhau bod ei strwythur yn gweddu i'w phwrpas. Weithiau, efallai na fydd yn briodol i bartneriaeth barhau. Er enghraifft, os llwyddwyd i gyflawni'r amcanion gwreiddiol, dylid dathlu hyn a dirwyn y bartneriaeth i ben gyda chydabyddiaeth o'r hyn y mae wedi'i gyflawni.

D. Datblygu a Gwella Partneriaethau

Mae'n bwysig bod y Cyngor yn gweithio'n barhaus tuag at wella'r modd y mae'n gweithio mewn partneriaeth. Mae hyn yn cynnwys parhau i chwarae ein rhan yn y gwaith o ddatblygu partneriaethau yn unol ag arfer orau. Bydd yr Awdurdod yn cefnogi hyn drwy sefydlu gwerthoedd a gweithio i greu'r diwylliant cywir i hybu gweithio mewn partneriaeth. Byddwn yn datblygu'r Teclyn hwn ymhellach ac yn cefnogi ein swyddogion trwy ddarparu gwybodaeth amserol, o ansawdd yn ogystal â chynghor cyfreithiol ac ariannol a chynghor ynghylch archwilio fel y gallant gyfrannu a herio fel y byddo'n briodol.

E. Marc Ansawdd Partneriaethau

Mae rhai o'n sefydliadau partner wedi awgrymu y dylai'r Cyngor ystyried datblygu marc ansawdd Partneriaethau fel rhan greiddiol o'i drefniadau monitro. Mae'r Cyngor yn bwriadu rhoi ystyriaeth bellach i'r awgrym hwn yn ystod y flwyddyn i ddod.

12. RHEOLI RISG

Un agwedd bwysig ar lywodraethu yw rheoli risg, ac mae gweithio mewn partneriaeth yn cyflwyno nifer o risgiau y mae angen eu rheoli.


Diffiniad o Risg

Risg yw'r ansicrwydd ynghylch canlyniad, boed yn gyfle positif neu'n fygythiad negyddol, o weithredoedd neu ddigwyddiadau a chaiff ei ddiffinio gan y Cyngor fel *"digwyddiad a fyddai'n effeithio ar ein gallu i gyflawni ein hamcanion yn llwyddiannus, petai'n digwydd"*.

Cydnabyddir bod yna risgiau ynghlwm wrth bob gweithgaredd a bod gan gyrff cyhoeddus ddyletswydd i reoli'r risgiau hyn mewn ffordd gytbwys, strwythuredig a chost effeithiol. Polisi'r Cyngor yw sicrhau diwylliant o gymryd risgiau mewn modd deallus, lle mae'n hollol eglur pa risgiau mae'r Cyngor wedi dewis eu derbyn, a pha rai yr ydym wedi dewis peidio eu derbyn.

Fel elfen allweddol o lywodraethu da, mae rheoli risg yn cynnwys adnabod, dadansoddi, rheoli a monitro risgiau, a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd. Dylid rhoi ystyriaeth i'r risgiau hyn cyn mynd i bartneriaeth a dylai lefel y risg bosib fod yn ffactor wrth lywio'r penderfyniad i gymryd rhan mewn partneriaeth neu beidio. Dylai penderfyniadau i fynd i bartneriaeth fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o'r risgiau a'r heriau, a hefyd o'r manteision a ragwelir.

Caiff y **broses rheoli risg** ei hamlinellu yn y diagram isod:



Er mwyn cyflawni'r arfer dda a gydnabyddir gan CIPFA⁷, mae'n rhaid i sefydliadau fodloni dau o gyfrifoldebau allweddol ar gyfer pob partneriaeth sydd ganddynt:

- 🚦 Rhoi sicrwydd bod y risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth â sefydliad arall wedi cael eu hadnabod a'u blaenoriaethu ac yn cael eu rheoli'n briodol
- 🚦 Sicrhau bod gan y bartneriaeth weithdrefnau rheoli risg effeithiol yn eu lle (sy'n gymesur â'r risg a grëir).

Felly, mae dwy agwedd ar reoli risg wrth weithio mewn partneriaeth:

a. **O'r tu allan yn edrych i mewn – y risgiau i'r Cyngor trwy fod yn rhan o'r bartneriaeth**

Dylid adnabod y risgiau i'r Cyngor yn ystod y cyfnod sefydlu a'u hymgorffori yn achos busnes y Bartneriaeth. Os bydd y Bartneriaeth yn mynd yn ei blaen dylai'r risgiau a nodwyd, ynghyd ag unrhyw gamau gweithredu lliniarol, gael eu cynnwys yng nghofrestr risg y Gwasanaeth perthnasol. Mae'r ddyletswydd i sicrhau bod y broses rheoli risg yn cael ei dilyn yn gyfrifoldeb i'r rheolwyr perthnasol yn y sefydliad a'r Aelodau Portffolio⁸ lle mae eu cylch gwaith yn cynnwys y Bartneriaeth.

⁷ Chartered Institute of Public Finance & Accountancy

⁸ Dim ond yn berthnasol i'r Awdurdod Lleol

b. Ar y tu allan – y risgiau i'r Bartneriaeth

Er mwyn rhoi sicrwydd i aelodau partneriaeth dylai pob Partneriaeth sefydlu ei threfniadau ei hun ar gyfer rheoli risg. Os oes gan y sefydliad arweiniol strategaeth a methodoleg rheoli risg y mae wedi eu profi, dylid ystyried defnyddio'r rhain ar gyfer y Bartneriaeth.

Er nad yw'n ofyniad, anogir y partneriaid i ddefnyddio'r fformat cofrestr risg (**TECLYN X**) a'r Meini Prawf Asesu Risg a ddefnyddir gan y Cyngor (**TECLYN Y**) wrth weithio mewn partneriaeth â'r Cyngor.

CATEGORïAU RISG

Gall partneriaethau amrywio'n fawr o ran eu maint a'u cymhlethdod, o ddwy ochr yn dod ynghyd i ddatrys problem gyda'i gilydd, i bartneriaeth aml-asiantaethol a ddefnyddir i ddarparu set gwbl newydd o wasanaethau mewn ffordd hollol newydd. Felly bydd y risgiau a wynebwr hefyd yn amrywio'n sylweddol.

I gynorthwyo gydag adnabod y risgiau a wynebwr, gellir categorïddio'r risgiau. Mae nifer o gategorïau cyffredin sy'n helpu i grwpio risgiau a gellir eu defnyddio fel set o awgrymiadau i ystyried senarios a allai effeithio ar amcanion penodol. **TECLYN Z** yw'r dull categorïddio a ddefnyddir gan y Cyngor.

13. CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU

-  Mae'n bwysig i'r bartneriaeth ganolbwyntio ar ei chwsmeriaid, ei defnyddwyr neu ei chymuned darged. Pryd bynnag y bo'n briodol ac y bo modd, dylai pobl fel defnyddwyr gwasanaeth a gofalmwr gael eu cynrychioli ar bartneriaethau a'u cynnwys wrth ddylunio a rhoi gweithgareddau ar waith. Dylid cyfleu gwybodaeth yn rheolaidd hefyd.
-  Mae cyfathrebu llwyddiannau'r bartneriaeth yn rhan bwysig o ddatblygu a chynnal partneriaethau. Dylai'r partneriaethau mwyaf arwyddocaol ddatblygu strategaeth gyfathrebu/marchnata syml.
-  Swyddog Arweiniol y Cyngor ar gyfer y bartneriaeth sy'n gyfrifol am gyfathrebu llwyddiannau o fewn yr Awdurdod, i bartneriaid perthnasol ac yn arbennig i Aelodau Etholedig a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

CYNLLUN CORFFORAETHOL 2014-2017

Themâu Allweddol:

THEMA 1: proffesiynol a threfnus

THEMA 2: arloesol, uchelgeisiol ac eangfrydig

THEMA 3: Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinasydd a'r Gymuned

THEMA 4: gwerthfawrogi a datblygu ein Pobl

THEMA 5: ymrymo i Bartneriaeth

THEMA 6: cyflawni

Blaenoriaethau:

1. Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn
2. Adfywio ein Cymunedau a Datblygu ein Economi
3. Gwellu Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion
4. Cynyddu ein Opsiynau Tai a Lleihau Tlodi
5. Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd
6. Dod i ganolbwyntio ar y Cwmser, y Dinesydd a'r Gymuned
7. Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu

CWESTIYNAU I ADOLYGU PARTNERIAETH

Fel sail ar gyfer arfer dda, mae'r Awdurdod wedi datblygu set o gwestiynau allweddol y dylid eu gofyn wrth adolygu gweithgarwch partneriaeth:

- ✚ Beth yw enw'r Bartneriaeth?
- ✚ Pam mae angen y Bartneriaeth? Beth yw ei diben?
- ✚ Pwy yw'r prif randdeiliaid?
- ✚ Beth yw'r lefel gweithredu – cymunedol, sirol, rhanbarthol, cenedlaethol?
- ✚ Sut mae'r bartneriaeth yn sicrhau gwerth ychwanegol i'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud? A yw'r gwerth hwnnw'n cael ei ddangos i'r cyhoedd?
- ✚ Pa fewnbwn mae'r Cyngor yn ei gyfrannu o ran amser Aelodau a/neu Swyddogion, cyllid, defnyddio asedau ac ati? (dylid nodi maint ymrwymiad ariannol/cyllidebol y Cyngor i'r Bartneriaeth)
- ✚ Beth yw'r trefniadau llywodraethu? Er enghraifft, a oes yna Gylch Gorchwyl clir; ydy'r Bartneriaeth yn cael ei hadolygu'n rheolaidd; Pwy sy'n gyfrifol am dasgau gweinyddol ar gyfer y Bartneriaeth?
- ✚ Pa awdurdod/pwerau sydd gan y Bartneriaeth?
- ✚ Sut caiff penderfyniadau eu gwneud a'u cofnodi?
- ✚ Pwy sy'n gyfrifol ac yn atebol am benderfyniadau a chmau gweithredu? Sut cânt eu craffu (yn fewnol ac yn allanol)?
- ✚ Sut caiff perfformiad y Bartneriaeth ei reoli a'i asesu /gwerthuso?
- ✚ Sut caiff cyllid ei reoli?
- ✚ Beth yw'r risgiau a'r rhwymedigaethau a grëir gan Bartneriaethau i'r Cyngor a sut caiff y rhain eu lliniaru a'u rheoli?
- ✚ Pa drefniadau terfynu sydd yn eu lle os daw'r Bartneriaeth i ben neu os yw'r Cyngor yn penderfynu tynnu allan?
- ✚ Beth yw'r prif bethau mae'r Bartneriaeth wedi eu cyflawni?

I BARTNERIAETHAU SY'N GWASANAETHU'R CYHOEDD YN UNIONGYRCHOL

- ✚ Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau cyfathrebu effeithiol â'r cyhoedd?
- ✚ Pan fo pethau'n mynd o chwith neu pan fo'r cyhoedd yn nodi awgrymiadau /cwynion, sut bydd y rhain yn cael sylw?

CWESTIYNAU AR GYFER PARTNERIAETHAU NEWYDD

Cyn ymrwymo i unrhyw Bartneriaeth newydd dylech sicrhau bod y ????? Rheolwr yn ymwybodol i sicrhau y gellir cynnig y cyfarwyddyd priodol ac angenrheidiol.

- ✚ Pam mae angen y Bartneriaeth?
- ✚ Pwy ydy'r prif bartneriaid posibl?
- ✚ A yw'r partneriaid posibl yn glir ynghylch eu cyfranogiad a'u hymrwymiad?
- ✚ A oes cyntundeb ynghylch diben y bartneriaeth?
- ✚ Sut bydd y Bartneriaeth yn ychwanegu gwerth at yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud a blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol? A ellir dangos y gwerth ychwanegol hwnnw i'r cyhoedd?
- ✚ Sut y bydd y partneriaid yn ychwanegu gwerth i'r Bartneriaeth?
- ✚ Pa fewnbwn y bydd angen i'r Cyngor ei wneud o ran amser Aelodau Etholedig a swyddogion, cyllid, y defnydd o asedau ac ati?
- ✚ Sut mae trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn cysylltu â'r Bartneriaeth a'r prif Bartneriaid eraill?
- ✚ Pa awdurdod /pwerau fydd gan y Bartneriaeth?
- ✚ Sut bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud a'u cofnodi?
- ✚ Pwy fydd yn atebol am benderfyniadau a chymau gweithredu?
- ✚ Sut bydd y Bartneriaeth yn cael ei chraffu?
- ✚ Sut bydd perfformiad y Bartneriaeth yn cael ei reoli a'i werthuso?
- ✚ Sut bydd cyllid y Bartneriaeth yn cael ei reoli?
- ✚ Sut bydd unrhyw risgiau a rhwymedigaethau'n cael eu hasesu a'u rheoli?
- ✚ Beth yw'r trefniadau terfynu os daw'r Bartneriaeth i ben neu os yw'r Cyngor yn penderfynu tynnu allan?

I BARTNERIAETHAU SY'N GWASANAETHU'R CYHOEDD YN UNIONGYRCHOL

- ✚ Pa drefniadau fydd ar waith i sicrhau cyfathrebu effeithiol â'r cyhoedd?
- ✚ Pan fydd pethau'n mynd o chwaith neu os derbynnir awgrymiadau/cwynion, sut bydd y rhain yn cael sylw?